
Enw ____________________



DARLLENWCH
Mathew 26: 69-75




ADNOD
ALLWEDDOL
Salm 51: 7

*Gofynnwch am help i ddod o hyd i'r adnod*

## Stori 3 Pedr yn gwadu

Pan gafodd Iesu ei ddal a gorfod mynd i dŷ'r Archoffeiriad, fe redodd y disgyblion i gyd i ffwrdd. Efallai bod arnynt ofn y bydden nhw'n cael eu harestio hefyd.

Roedd Pedr yn wahanol. Penderfynodd ddilyn y criw a aeth â Iesu i ffwrdd, gan gadw'n ddigon pell ar eu hôl.



C **Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau yn y paragraff isod.**

Iesu          disgyblion          Pedr




Rhedodd y rhan fwyaf o'r
**d** __ __ __ __ __ __ __ __ __ i ffwrdd,
ond dilynodd **P** __ __ __ y criw a
ddaliodd **I** __ __ __ .

6

Eisteddodd Pedr yn iard tŷ'r Archoffeiriad. Roedd yn noson oer ac fe gynhesodd ei ddwylo wrth y tân. Roedd criw o bobl yno. Daeth morwyn at Pedr a dweud, "Roeddet ti gyda Iesu". Ond roedd ofn ar Pedr a dywedodd gelwydd. Dywedodd "Dw i ddim yn gwybod am beth rwyt ti'n siarad!"

C **Ysgrifennwch, yn y swigen siarad, y geiriau a ddywedodd Pedr wrth y forwyn.**




3

Ddwy waith wedi hynny, daeth pobl at Pedr a dweud eu bod yn ei nabod fel un o'r disgyblion. A bob tro, dywedodd Pedr, "Dydw i ddim yn nabod y dyn". Dywedodd gelwydd dair gwaith. Pan fyddwn ni'n dweud bod Pedr wedi GWADU Iesu, rydyn ni'n golygu ei fod wedi dweud nad oedd yn nabod Iesu.

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf bob un o'r pethau isod i gael gwybod beth wnaeth Pedr i Iesu dair gwaith.** 2



____ ____ ____ ____ ____

Dyna drist nad oedd Pedr yn ddigon dewr i ddweud ei fod yn ffrind i Iesu. Yn fuan wedyn, canodd y ceiliog. Yna, cofiodd Pedr bod Iesu wedi dweud y byddai Pedr yn ei wadu dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu.

C **Beth glywodd Pedr i'w atgoffa o'r hyn a ddywedodd Iesu?** 2

**C __ __ __ __ __ __ .**

C **Rhowch gylch o gwmpas y rhif sy'n dangos sawl gwaith wnaeth Pedr wadu Iesu.** 2

**5 3 1**

Trodd Iesu ac edrych yn syth at Pedr. Pan sylweddolodd Pedr beth roedd wedi'i wneud, aeth allan a chrïo a chrïo. Roedd mor drist ei fod wedi siomi Iesu.

C **Lliwiwch y geiriau yn yr Adnod Allweddol a'i dysgu.** 5

# "Golch fi a byddaf yn wynnach nag eira."

Salm 51: 7



Gallai Pedr fod wedi gweddïo'r weddi hon. Roedd arno ef angen gofyn i Dduw olchi ei bechodau i ffwrdd. Ar ôl hyn, cafodd Iesu ei groeshoelio. Yno, bu farw drosom ni fel y gallai ein pechodau ni, yn cynnwys ein celwyddau ni, gael eu maddau.

Bydd Duw yn maddau i ni pan wnawn ni gyfaddef ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg.

**cyfanswm**